



MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

Byddwch yn cael eich **asesu'n awtomatig**, nid cael dyfarniad, ar gyfer y fwrsariaeth **os ydych yn bodloni'r holl** ofynion canlynol:

- A) Rhaid i chi gael eich ystyried yn **fyfyrwr Cartref** at ddibenion talu ffioedd
- B) Rhaid i chi fod yn **fyfyrwr newydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn gwneud cais drwy UCAS, ac yn dechrau ar gwrs israddedig llawn amser a gefnogir gan y GIG ym mlwyddyn un sy'n dechrau yn 2026.**
- C) Rhaid i'ch cyfeiriad parhaol fod yn un o'r **10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru** fel y'u diffinnir gan [Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) 2019 (MALIC).

DYRANIADAU

- A) Anfonir **cadarnhad o'r dyfarniad** at fyfyrwyr a aseswyd ac oedd yn llwyddiannus cyn dyddiad dechrau eich cwrs.
- B) Rhaid i chi fod wedi **cofrestru ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd** i fod â hawl i becyn cymorth y GIG
 - I. Os byddwch yn **gadael** eich cwrs, bydd pob elfen o'r pecyn cymorth yn dod i ben ar unwaith heb unrhyw bosibilrwydd o adfer yn y dyfodol.
 - II. Os cewch eich **atal** o'ch astudiaethau, bydd holl elfennau'r pecyn cymorth yn dod i ben ar unwaith. Bydd eich hawl yn cael ei gohirio nes i chi symud ymlaen i'r flwyddyn astudio rifiadol nesaf.
 - III. Os byddwch yn **gadael** eich gradd, ni fydd gennych hawl i becyn cymorth y GIG os byddwch yn dewis ailymuno a chwblhau eich gradd.
- C) **Nid oes angen i chi ailymgeisio** bob blwyddyn. Unwaith y byddwch wedi derbyn pecyn cymorth y GIG, byddwch yn derbyn y pecyn dyfarnu drwy gydol eich gradd, yn unol â'r telerau ac amodau uchod.

DYFARNIADAU

Nid yw hwn yn ddyfarniad ariannol. Mae'r pecyn gwobrwyo yn canolbwyntio ar **gymorth astudio**. Bydd ymarferion sgiliau astudio, tiwtora, mentora a chefnogaeth gan gymheiriaid ar gael, ymhlith buddion eraill.

Os ydych yn gymwys, byddwch hefyd yn cael mynediad i **gyfrifiadur wedi'i fenthg** drwy gydol y rhaglen.

CYFYNGIADAU

- Ar ôl i chi gofrestru, anfonir unrhyw ohebiaeth fwrsariaeth at eich **cyfeiriad e-bost myfyrwr**.
- Nid yw'r fwrsariaeth hon ar gael os ydych yn astudio mewn **coleg masnachfaint**. Cysylltwch â'ch coleg lleol i drafod bwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd ar gael.

- **Ni ellir trosglwyddo** elfennau gwerth cysylltiedig y dyfarniad.